Canllaw Cyflym

11116-5 QSG044 Rev. 13F/11F

Canllaw cyflym yn unig yw hwn. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y cyfarwyddiadau gweithredu.

- Bydd cas allanol y gwresogydd Quantum yn oerach na stôr-wresogydd confensiynol, a hynny am fod llai o wres yn cael ei 'golli' drwyddo, sy'n golygu bod mwy o wres ar gael drwy'r gwyntyll pan fydd ei angen.
- Peidiwch byth â gosod dim byd o fewn 30cm (1 droedfedd) o flaen y gwresogydd, a hynny i atal pethau rhag cyffwrdd â'r gril a'r aer poeth sy'n dod ohono. Gall cau rhywfaint neu'r cyfan o'r fan yma greu perygl tân.
- Does dim angen ichi benderfynu faint o wres i'w storio. Gosodwch y modd amseru a'r tymheredd sy'n addas i chi, a bydd y gwresogydd yn ateb eich anghenion.
- Gofalwch fod y ddau swits cyflenwi wrth y gwresogydd wedi'u troi ymlaen. Yn yr haf, pan na fydd angen gwres, gallwch droi'r ddau swits ar y wal i ffwrdd. Cofiwch eu troi ymlaen yn yr Hydref pan fydd angen gwres eto.

Sut mae rheolydd y gwresogydd yn gweithio?

Mae rheolydd y gwresogydd yn gadael ichi ddewis pryd i gael y gwres ymlaen, a pha dymheredd y dylai ei gyrraedd. I roi'r gwres yr hoffech ei gael, mae'r rheolydd yn gweithio gwyntyll araf i wthio'r gwres sydd wedi'i storio i'r ystafell.

Mae'r adegau pan fo'r gwresogydd yn rhoi gwres yn cael eu galw'n '**Comfort On'** (sydd i'w weld ar waelod y sgrin). Y tu allan i'r adegau hyn, fydd y gwresogydd ddim yn rhoi gwres a'r enw ar y cyfnodau hyn yw 'Comfort Off'. Yn ystod cyfnodau '**Comfort On'** bydd y gwyntyll araf yn troi. Yn ystod cyfnodau '**Comfort Off'** fydd y gwyntyll ddim yn troi.

Sylwch: bydd bwlch o hyd at funud cyn i'r gwyntyll weithredu wrth newid rhwng 'Comfort On' a 'Comfort off'. Mae hyn yn normal a does dim byd o'i le.

Gosod yr amser

Mae'r amser a'r dyddiad yn cael eu gosod yn y ffatri ac ni ddylech weld bod angen eu newid. Ond, i sicrhau eu bod yn gywir, pwyswch **Menu**, wedyn pwyswch y **Deial Dewis** gyda **Time / Date** wedi'i amlygu. Trowch y **Deial Dewis** nes ichi weld y gwerth cywir, wedyn pwyswch arno i gadarnhau ac ewch ymlaen i'r gwerth nesaf. Gwnewch yr un fath eto nes bod pob gwerth yn gywir, wedyn pwyswch **Back**.

Mae'r amser yn newid yn awtomatig bob gwanwyn a hydref rhwng Amser Cymedrig Greenwich (GMT) ac Amser Haf Prydain (BST).

Gosod y tymheredd

Y pwynt gosod ar gyfer tymheredd yr ystafell yw'r tymheredd welwch chi ar y sgrin. Dyma'r tymheredd y bydd y gwresogydd yn ei roi mewn cyfnod '**Comfort On**'. Os yw tymheredd yr ystafell yn uwch na hyn, fydd y gwyntyll ddim yn troi.

Mae'r gwresogydd yn dod o'r ffatri gyda'r tymheredd wedi'i osod ar 21°C, sef tymheredd gyffyrddus mwn ystafell gyffredin.

Os oes arnoch angen tymheredd arall, trowch y deial i'r dde neu i'r chwith nes ichi weld y tymheredd yr hoffech ei gael.



Gosod y modd amseru

Mae tri modd amseru wedi'u gosod ymlaen llaw ar y gwresogydd Quantum.


Mae'r rhain yn pennu pryd bydd y gwresogydd yn gweithio yn y modd '**Comfort On**'.

Dyma'r tri modd:

Modd Amseru	Disgrifiad
Allan drwy'r Dydd	7.5 awr o wres y dydd mewn dau gyfnod
Gartref drwy'r Dydd	11 awr o wres y dydd mewn pedwar cyfnod
Gwyliau	Gosod y tymheredd a faint o ddyddiau y byddwch ar eich gwyliau

Pa fodd amseru sydd orau i mi?

Mae'r gwresogydd yn dod o'r ffatri yn y modd **Out All Day.** Os ydych chi allan drwy'r dydd ac angen gwres yn y bore a gyda'r nos yn unig, bydd y modd hwn yn addas i chi a fydd dim angen ichi wneud dim.
Os ydych chi gartref yn ystod y dydd, yna dylech ddewis y modd **Home All Day**. Bydd y modd hwn yn rhoi pedwar cyfnod o wres ichi, wedi'u rhannu drwy'r dydd.



Os byddwch i ffwrdd am gyfnod estynedig, yna gallwch ddefnyddio'r modd Holiday. Mae hwn yn gadael ichi leihau'r gwres tra byddwch i ffwrdd, a throi nôl at y modd blaenorol pan fyddwch yn dod adre.
I ddewis modd amseru, pwyswch **Menu** a throwch y deial i ddewis **Timer Mode**. Dewiswch y modd priodol, eto drwy droi a phwyso'r deial. O ran yr opsiynau **Out All Day** a **Home All Day** mae tri dewis ar gael - **Select, Preview** a **Modify.**

Select – Dewis yr opsiwn amseru hwn. **Preview** – Gweld yr amserau sydd wedi'u gosod. **Modify** – Newid yr amserau sydd wedi'u gosod.
I gael gwybodaeth am sut i newid yr amserau sydd wedi'u rhaglennu, gweler y cyfarwyddiadau gweithredu.

Advance

Weithiau byddwch gartref yn annisgwyl, neu bydd angen ichi fynd allan pan oeddech chi wedi bwriadu cael y gwres ymlaen a bod angen ichi newid y gwres dros dro. Gallwch wneud y newid dros dro drwy ddefnyddio'r opsiwn **Advance**. Mae'r opsiwn **Advance** yn gadael ichi ddechrau'r cyfnod '**Comfort On**' nesaf yn gynnar.



Os yw'r gwresogydd mewn cyfnod '**Comfort Off**' a bod angen gwres, pwyswch y botwm **Advance**. Os yw'r gwresogydd ar '**Comfort On**' ac nad oes angen gwres, pwyswch y botwm **Advance** a bydd yn diffodd tan y cyfnod '**Comfort On**' nesaf.

Boost

Mae opsiwn ychwanegol o'r enw **Boost** ar gael o dan reolaeth y thermostat electronig os oes angen gwres ychwanegol, er enghraifft o achos tywydd oer anghyffredin. Gallwch ddewis pa mor hir i redeg yr hwb yma, rhwng un awr a phedair awr. Pan fydd yr hwb wedi rhedeg am yr amser a ddewiswyd, bydd yn diffodd yn awtomatig.



Bydd **Auto Boost** yn defnyddio'r opsiwn hwb yn awtomatig i gadw'r tymheredd gosod yn ystod cyfnodau '**Comfort On'**.
Sylwch: mae'r opsiwn Boost yn defnyddio trydan y gyfradd brysur a gall arwain at gostau rhedeg uwch.

Clo plant

Os oes angen cloi'r rheolydd i atal y gosodiadau rhag cael eu newid, defnyddiwch y **Clo Plant**. I gloi'r rheolydd, pwyswch a daliwch y botwm **Back** a'r **Deial Dewis** am dair eiliad. Byddwch yn gweld **Child Lock** ar waelod y sgrin. I ddatgloi'r rheolydd, gwnewch yr un fath eto gan bwyso'r botwm **Back** a'r deial am dair eiliad.

